# y dinesydd

Medi 2003 PAPUR BRO DINAS CAERDYDD A'R CYLCH Rhif 283


# TEYRNGED I WYN ROBERTS

Ddydd Llun, 28 Gorffennaf, cynhaliwyd gwasanaeth angladdol Mr. Wyn Roberts, Prifweithredwr Cyd-bwyllgor Addysg Cymru, yn Eglwys y Crwys ac yna yn Amlosgfa'r Ddraenen. Roedd y gwasanaeth yng nghofal ei Weinidog ym Methel, Rhiwbina, y Parch. T. Evan Morgan.



Yn 53 oed, bu Wyn farw'n dra sydyn gan adael teulu ifanc ar ei ôl. Estynnwn gydymdeimlad dwys â'r teulu yn ei hiraeth. Cyhoeddir yma addasiad byr o'r deyrnged i Wyn a draddodwyd yn y Crwys gan ei gyfaill, Dewi Llwyd.

Chawson ni ddim cyfle i ffarwelio'n iawn, ond heddiw fe ddaw cyfle i ddiolch am gael adnabod Wyn. Os ydi'r amgylchiadau'n chwerw, yr achlysur yn anodd, fe ddaw'r geiriau o rywle i ddiolch am un a oedd yn gyfaill oes, cyfaill y gallai rhywun ymddiried ynddo'n llwyr. Deiniol Road ym Mangor oedd y filltir sgwâr i Wyn a finna a dyrnaid o blant eraill. Ychydig yn hŷn na fi, roedd o'n dipyn o arwr, mab un mans yn hebrwng mab un arall i'r ysgol yn y bore - yn ymwybodol yn gynnar iawn, mae'n amlwg, fod addysg dda yn dyngedfennol. Ond yn bwysicach fyth o safbwynt yr hogyn iau, roedd Wyn yn beldroediwr penigamp. A dyna ni, cyn ei fod yn ddeg oed, rai o'r nodweddion a fyddai'n cynnal nid yn unig ein cyfeillgarwch ni, ond a fyddai'n tywys Wyn ar hyd llwybr bywyd, ac yn ei wneud yn berson mor arbennig.

Roedd diwylliant Cymraeg, Cristnogol Meirionnydd a Cheredigion yn llifo'n gryf trwy wythiennau Wyn. Ond roedd o hefyd yn ymfalchïo hyd y diwedd ei fod yn un o hogia Bangor. A'r fagwraeth honno ar yr aelwyd yn Annedd Wen, yn eglwys Lonpopty, clwb ieuenctid y capeli lle'r oedd y ddau dad yn ceisio cadw trefn ar genhedlaeth y meibion, yn ysgolion St Paul's a Friars, yng nghlybiau pêl-droed a tenis y ddinas - y fagwraeth honno roddodd y ddawn brin iddo allu pontio rhwng y gwahanol fydoedd, a bod yn gyfforddus ymhlith pobl o bob oed, o bob iaith ac o bob tras. Ym mha gyfnod bynnag, ym mha swydd bynnag, roedd gan Wyn rywbeth i'w ddweud wrth bawb.

Bu'n athro yn y Clasuron yn Abertawe a Chaerffili cyn cael ei benodi'n un o swyddogion y Cyd-bwyllgor Addysg. Ac os oedd y Clasuron yn graddol ddiflannu, roedd Wyn yn llwyddo i lithro'n ddi-ymdrech i feysydd eraill. Ym mhob maes, roedd o bob amser yn ymfalchïo yn ei waith, yn awyddus fod plant Cymru'n cael pob tegwch, ac fe ddatblygodd i fod yn ddyn cyhoeddus. Ond doedd o ddim ar unrhyw gyfri'n geffyl blaen .........Os oedd o'n wylaidd a diymhongar, roedd o hefyd yn ŵr bonheddig, bob amser yn cario'i feichiau'n ysgafn.

Ond fyddai o ddim wedi gallu cyflawni yr hyn wnaeth o heb gefnogaeth Siân, a heb fod yna dipyn o ddur y tu ôl i'r natur hyfryd.

Roedd o'n sicr yn benderfynol ...... Yr holl chwaraeon a'i gwnaeth yn berson tîm, yn berson disgybledig a dibynadwy, yn berson oedd yn chwilio am y nodweddion hynny, ac yn eu gwerthfawrogi nhw, yn ei gyfeillion a'i gyd-weithwyr.

[Parhad ar dudalen 3]

# Eisteddfod Genedlaethol Maldwyn a'r Gororau

Bu'n Eisteddfod lwyddiannus ym mhob ffordd, a nifer dda o gystadleuwyr o Gaerdydd a'r cylch wedi ennill clod ac anrhydedd mewn sawl maes. Braf oedd gweld y Dinesydd amlwg, Ioan Gruffudd, yn cael ei anrhydeddu gan yr Orsedd. Yng nghorff y rhifyn hwn ceir adroddiadau ar rai o'r gweithgareddau. Maen nhw'n haeddu'r sylw. Anfonir copi at arweinydd Cyngor Caerdydd!

Bu corau'r ddinas yn amlwg iawn ar y llwyfan; buddugoliaeth ar ôl buddugoliaeth - ac un fuddugoliaeth foesol ddigamsyniol! Llongyfarchiadau calonnog iddynt i gyd. Diolch i Aled John o CF1 ac i'r arweinyddion Eilonwy Jones a Gwawr Owen am roi 'gair o brofiad', ac i Sioned James, arweinydd Côrdydd, am ymateb i'r gwahoddiad i 'agor ei mynwes', megis, ynglŷn â'r 'digwyddiad' ar y dydd Gwener.

A diolch hefyd i Roy Saer, Llywydd Cymdeithas Alawon Gwerin Cymru, am ei sylwadau yntau o edrych ar yr Eisteddfod o gyfeiriad 'gwahanol'.

Holwyd R. Alun Evans, Llywydd Llys yr Eisteddfod, am ei deimladau ar ôl wythnos brysur ym Meifod. "Eisteddfod rhyfeddol o hapus," meddai, "a'r awyrgylch, rywsut, yn adlewyrchu mwynder Maldwyn ar ei orau." Dywedodd bod y Sir i gyd, o Fachynlleth i Lanidloes ac i'r Trallwng wedi dangos bod yr Eisteddfod yn perthyn iddyn nhw - a'r tu hwnt hefyd, gyda Chymdeithasau Cymraeg mewn llefydd fel Birmingham, Wolverhampton a sawl lle ar y gororau wedi arddangos y teimlad o 'berchnogaeth'.

Ydy'r Eisteddfod wedi mynd yn ŵyl rhy fawr i'w chynnal mewn lle mor wledig? "Bydd llwyddiant ysgubol y trefniadau eleni," meddai, "yn ffactor bwysig i'w hystyried yn yr adroddiad ar ddyfodol yr Eisteddfod, a gomisiynwyd gan Gyngor yr Eisteddfod, Bwrdd Yr Iaith, y Bwrdd Croeso a Chyngor y Celfyddydau." Cwmni Terry Stevens o Abertawe sy'n cynnal yr archwiliad a disgwylir i'r adroddiad gael ei gyhoeddi ddiwedd mis Medi.

# Y Dinesydd

**Medi, Rhif 283.** **ISSN 1362-7546**
Cyhoeddir *Y Dinesydd* gan Bwyllgor *Y Dinesydd*.
Fe'i cysodir gan PPS, 139 Station Road, Ystum Taf, Caerdydd.
Ffôn: 029 2056 6046, ebost: lorraine@pioneerprinting.co.uk
a'i argraffu gan Wasg Morgannwg, Mynachlog Nedd.

**Golygydd y rhifyn hwn:**
**D. Bryan James**

**Golygyddion y rhifyn nesaf:**
**Dylan Wyn a Nest Gwilym**

### NEWYDDION, ERTHYGLAU, ETC.

**Anfonwch ddefnyddiau ar gyfer rhifyn Hydref 2003 erbyn 24 Medi at:**
Dylan Wyn, 56 Wyndham St., Glanyrafon, Caerdydd CF11 6DR
Ffôn: 029-2022-8156; e-bost: henblas@hotmail.com

**neu at Gadeirydd Pwyllgor *Y Dinesydd*:**
Dr E. Wyn James, 16 Kelston Rd., Yr Eglwys Newydd, Caerdydd CF14 2AJ Ffôn: 029-2062-8754;
e-bost: JamesEW@caerdydd.ac.uk

### CALENDR

Anfonwch eitemau at Dr E. Wyn James. (Gweler uchod.)

### DERBYN A DOSBARTHU COPÏAU

Os oes gennych unrhyw sylwadau ynghylch dosbarthu'r Dinesydd (er enghraifft, os ydych yn cael anhawster i gael gafael ar gopi neu os ydych yn barod i fod yn ddosbarthwr) neu os ydych am dderbyn *Y Dinesydd* drwy'r post, cysylltwch â CERI MORGAN, d/o Menter Caerdydd, Tŷ Avocet, 88 Heol yr Orsaf, Ystum Taf, Caerdydd CF14 2FG Ffôn: 07774-816209; e-bost: ceri33@btopenworld.com

### HYSBYSEBU

Mae 3,000 o gopïau o bob rhifyn o'r *Dinesydd* yn cael eu dosbarthu. Mae'n gyfrwng hwylus i gyrraedd cyfran uchel o Gymry Cymraeg y brifddinas.

Os ydych am hysbysebu yn *Y Dinesydd*, cysylltwch â MENNA GWYN, 41 Wingfield Rd, Yr Eglwys Newydd, Caerdydd Ffôn: 029-2041-8270; e-bost: menna@gwyn41.freeserve.co.uk

### CYNORTHWYO'N OLYGYDDOL

Gwaith tîm o wirfoddolwyr yw cynhyrchu a dosbarthu'r *Dinesydd*. Rydym bob amser yn croesawu pobl newydd i ymuno â'r tîm! Os ydych yn barod i gynorthwyo mewn unrhyw fodd - trwy gasglu newyddion, teipio erthyglau, golygu rhifyn, etc. - yna cysylltwch â Chadeirydd Pwyllgor *Y Dinesydd*. (Gweler uchod.)

### CYFRANNU'N ARIANNOL


Mae parhad *Y Dinesydd* yn dibynnu ar roddion gan unigolion a chymdeithasau. Mae ein Trysorydd, CERI MORGAN, yn croesawu pob rhodd, bach a mawr. Anfonwch ato dan ofal Menter Caerdydd, Tŷ Avocet, 88 Heol yr Orsaf, Ystum Taf, Caerdydd CF14 2FG Ffôn: 07774-816209; e-bost: ceri33@btopenworld.com

## Cyfarfod Blynyddol *Y Dinesydd*

Cynhaliwyd ar 10 Gorffennaf yng Nghapel Bethel, Rhiwbina. Ar gyfer 2003/4 etholwyd y canlynol: Cadeirydd - Wyn James; Is-Gadeirydd - Siân Parry Jones; Ysgrifennydd - Julie Jones; Trysorydd - Ceri Morgan; Swyddog Hysbysebion - Menna Gwyn. Pwyllgor: Siân Couch, Garwyn Davies, Robin Griffith, Efa Gruffydd, Leah Rhydderch, Gwilym Roberts, Rhys Llewelyn, Siân Lewis a John Rowlands. Mynegodd y Cadeirydd ei ddiolch i holl olygyddion y flwyddyn a diolchodd yn arbennig i Robin Jones, Prif Ddosbarthwr *Y Dinesydd* am ei waith clodwiw dros y blynyddoedd. Bydd newid yn y drefn o ddosbarthu'r *Dinesydd* o fis Medi ymlaen. (Gweler tudalen 10.)

## CROESAIR gan Rhian Williams

**Rhif 42** **Medi 2003**



**Ar Draws**

1. Enid a Di yn troi'n greulon (7)
5. Bydd cweir os caf droelli (5)
8. Ffeindio'r drws ar dro gwyllt (3)
9. Creu y salm ofer heb synnwyr (9)
10. Rhoi hanner afal i'r achos - dyna wael (5)
12. Ei synnu fo yn wallgof, mewn braw (2,5)
13. Cylch od yn troi'n le swnllyd efallai (6)
15. Dicter cêl yn troi'n agored (6)
18. Bu sôn iddi rywsut ddilyn yr haul yn gyntaf cyn cyfarwyddo â'r tywydd (7)
19. '___ yw i wneud ei gartref
Yn y galon euog ddu' (J.H.H.) (5)
20. Mae'r dymuniadau wedi drysu'r cyfrinachol bron (9)
21. Lle i ddechrau cadw anifeiliad estron (3)
22. Mae bod yn brin i wneud â dy faint ar draws! (5)
23. Y dringwr yn digwydd troi am Felindre (7)

**I Lawr**

1. Chwalu'r cadernid heb yr eiddgarwch cyntaf - ond yn dal yn anfarwol (7)
2. Esgor ar yn ail yn eofn! (3)
3. Un llarwydden yn Lloegr i'w gweld ar y llyn efallai (5)
4. Mae 500 ar gyfer croesawu (6)
5. Ymochel rhag cydgosi yn ddilywodraeth (7)
6. 'Does dim person fel mab Jona (5,4)
7. Merch i Lesley bach yn cael lloches (5)
11. 'Er difa pob rhyw bechod cas
A chynnydd ___ ___ ___ ras.' (J.R.) (1,3,5)
14. Dof i'r ŷd i wneud adduned (7)
16. Cymdeithas y Dysgwyr a delw ddrylliedig yn cytuno (7)
17. Ar y trothwy mae maeth i arf (6)
18. Torri coed ar ôl anadlu - dyna dwyll (5)
19. Ll3 i lanhau gwlân mewn ysgrepan dywysogaidd (5)
21. 'A oes a'ch deil o hyd mewn ___ a chalon,
Hen bethau anghofiedig teulu dyn? (3)

**Croesair Rhif 41**

**Ar draws:** 1. Fe gafwyd brawd; 8. Libanus; 9. Iolyn; 10. Nai; 11. Colledwyr; 13. Adlamu; 14. Tradwy; 17. Edrychais; 19. Gro; 21. Milgi; 22. Dychanwr; 24. Oes glust a glyw. **I lawr:** 1. Felinfach; 2. Gabriel; 3. Fen; 4. Yn syllu; 5. Blinderus; 6. Arlwy; 7. Dant; 11. Camsyniol; 12. Dynol ryw; 15. Digonol; 16. Cardas; 18. Dilys; 20. Amdo; 23; Chwa.

Derbyniwyd 14 o gynigion, ac 8 ohonynt yn hollol gywir. Danfonir y tocyn llyfr i Iona Warmington, 48 Glyn Simon Close, Danescourt. Cafwyd yr atebion cywir eraill gan Grace Farthing, Heledd Hall, Gwenda Hopkins, Hywel Jones, Margaret Jones, Marian Lake a Huana Simpson.

**Cystadleuaeth Medi** Anfonwch eich atebion i: 22 Heol Cae Rhys, Rhiwbina, Caerdydd CF14 6AN. Atebion i gyrraedd erbyn 24 Medi 2003.

**Teyrnged i Wyn Roberts** Parhad o dudalen 1.

Roedd Wyn yn ddyn capel, yn dal i fwynhau pregeth dda fel y rhai a glywodd droeon gan ei dad, ac yn hoff o'r gymdeithas gartrefol yn eglwys Bethel, Rhiwbina. Ond yn anad dim, roedd o'n ddyn teulu, ac roedd amgylchiadau wedi sicrhau ei fod o'n fwy felly na'r mwyafrif ohonom ni. Sara alluog, ddisglair oedd cannwyll ei lygad - a diolch iddo gael gwybod ychydig ddyddiau cyn ei farw ei bod hi wedi graddio. Yn ei ffordd unigryw ei hun, mae Richard wedi llenwi'r tŷ â chariad, hefyd, gan olygu gwaith ychwanegol, heb os, i'w rieni. Ond cario'r baich yn ddi-rwgnach wnaeth Siân a Wyn ar hyd y blynyddoedd ..........

Anodd dirnad fod Wyn wedi'n gadael mor ddi-rybudd. Ond os oes yna ddagrau chwerw, mae'n anorfod fod profedigaeth hefyd yn agor y drws i atgofion melys ......... a thra bydda i, mi fydd Wyn yn dal yn dipyn o arwr.

Dwi am gloi gyda chyfraniad gan un arall o weinidogion ein cyfnod ni ym Mangor. Dwi'n ddiolchgar iawn i John Gwilym Jones am lunio'r englyn yma er cof am Wyn:

Doist fel rhyw gyfaill distaw - i'n haddysg,
Rhoist i'n heddiw ganllaw
A huliaist â'th ddeheulaw
Fwrdd o ddysg i'r 'fory a ddaw.

*Dymuniad y teulu oedd i unrhyw gyfraniadau gael eu gwneud i 'Glwb Sul Tŷ Celyn', sef canolfan i blant ac oedolion ifanc ag anghenion arbennig. Mae'r apêl ar agor am fis arall, a gellir anfon cyfraniadau i 'Clwb Sul Tŷ Celyn', yng ngofal 'Aust', Rhiwbina Hill, Rhiwbina, Caerdydd.*

## Cerddorfa Genedlaethol Ieuenctid Cymru

Yn flynyddol er 1946 mae cerddorion ifanc disgleiriaf Cymru wedi dod at ei gilydd dan enw Cerddorfa Genedlaethol Ieuenctid Cymru (CGIC) - y gerddorfa gyntaf o'i bath yn y byd. Eleni am y tro cyntaf llwyddodd y Nash i ddenu arweinydd o Gymro i'w chyfarwyddo ac yng ngeiriau Owain Arwel Hughes ei hun bu'n "fraint arbennig imi allu gweithio gyda ieuenctid fy ngwlad fy hun".

Wedi wythnos ddwys o ymarfer ddiwedd Gorffennaf, ymgymerwyd â thaith gyngerdd o gwmpas Cymru. Ymwelwyd ag eglwysi cadeiriol Tŷ Ddewi, Llanelwy a Chaerwrangon, pafiliwn yr Eisteddfod Genedlaethol ym Meifod a Neuadd Dewi Sant, Caerdydd.

Roedd tua 40 o aelodau'r gerddorfa eleni yn hanu o ardal Caerdydd a Bro Morgannwg, a saith o'r rheini naill ai'n ddisgyblion neu'n gyn-ddisgyblion yn Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf - Jonathan (blaenwr y gerddorfa), Iestyn a Selyf Shapey, Heledd Havard, Steffan a Marged Jones ac Alice Reed.

Roedd arlwy'r gerddorfa eleni, fel arfer, yn feiddgar a mentrus yn cynnwys gweithiau gan Wagner, Delius, Mahler a Gareth Wood. Efallai nad yw enw'r cyfansoddwr olaf yn gyfarwydd i drwch darllenwyr y Dinesydd. Ganwyd Gareth Wood yng Nghilfynydd ym 1950. Astudiodd yn yr Academi Gerdd Frenhinol a bu'n aelod o CGIC rhwng 1968 ac 1971. Mae'n gyfansoddwr cynhyrchiol a hwn oedd ei waith comisiwn diweddaraf ar gyfer CGIC. *Above the dingle, stars* yw'r enw a roddwyd i waith a ysbrydolwyd gan ffrae danbaid rhwng pâr priod, sy'n cael eu cymodi mewn tafarn! Nid yw'n syndod deall mai'r pâr priod dan sylw oedd Dylan Thomas a'i wraig Caitlin a thaw yn Nhalacharn yr oedd y dafarn!

Cyd-bwyllgor Addysg Cymru sydd yn rheoli ac yn gweinyddu CGIC ac wythnos union cyn dechrau cwrs eleni bu farw Wyn Roberts, Prif Weithredwr CBAC, mewn amgylchiadau ingol o drist. Priodol iawn, felly, oedd i'r gerddorfa gyflwyno perfformiad olaf y daith o symffoni gyntaf Mahler er cof amdano yn Neuadd Dewi Sant.

Hawdd fyddai pentyrru ansoddeiriau canmoliaethus am gamp y bobl ifanc hyn. Digon yw dweud i'r gynulleidfa, gyda seinio'r cordiau olaf, godi ar ei thraed fel un côr ar ddiwedd noson o emosiynau cryf.

**Hywel Jones**

## Llongyfarchiadau i:

- Dr Rhys Jenkins ac Eluned Morgan ASE, ar enedigaeth Gwenllian Rhys Morgan Jenkins ar 10 Gorffennaf, chwaer fach i Arwel.
- Mererid Michael, merch Michael ac Ethni Jones, Llanbedr y Fro ar ei dyweddïad ag Erddin Llwyd, Cefnddwysarn, y Bala.
- Dafydd Saer, mab Ann a Roy o Landaf, ac Evelyn Mannion o Dal-y-bont, ger Aberystwyth, ar eu priodas ar 14 Mehefin. Dymuniadau gorau iddynt yn eu cartref newydd yn Nhal-y-bont.
- Rhodri Glyn James, mab Bryan a Val o Landaf, a Kathryn Wright, merch Peter a Sue o'r Rhath, ar eu priodas ar 21 Mehefin. Dymuniadau gorau iddynt yn eu cartref newydd yn Heathway, Y Mynydd Bychan.
- Iwan Pryce a Iola Wyn, Treganna, ar enedigaeth Caeo Rhys yn Ysbyty Llandochau ar 7 Awst. Brawd bach i Lleu Arthur ac ŵyr arall i Rees a Mary Pryce, Rhiwbina, ac Arthur ac Eirian Hughes, Bow St.
- Peter a Lorraine Rogers, cysodwyr *Y Dinesydd*, ar enedigaeth Dafydd ar 18 Awst. Brawd bach i Clare, Lucy, Tom ac Iwan.
- Ashley Drake ar ei benodiad yn Gyfarwyddwr Gwasg Prifysgol Cymru. Bydd yn dechrau ar ei ddyletswyddau yn yr Hydref.
- Siân Reeves, gynt o Gaerdydd sydd bellach yn byw yng Nghradoc ger Aberhonddu, ar ei champ yn ennill cystadleuaeth sgrifennu stori fer rhaglen Y Celfyddydau, Radio Cymru. Cyhoeddwyd y stori, sef Briallu, mewn rhifyn o *Golwg*.
- Dylan Griffith ar ennill y brif wobr ar gyfer cystadleuaeth Dylunydd y Flwyddyn dan nawdd Bwrdd yr Iaith Gymraeg.
- Cathy Owens ar ei hapwyntio yn Ymgynghorydd Arbennig i Rhodri Morgan, Prifweinidog y Cynulliad, ar ôl bod yn gweithio fel ymchwilydd cynorthwyol i Leighton Andrews, AC Llafur yn y Rhondda.

## Cydymdeimlo â:

- Nat Howells, Cyncoed, a'i deulu ar farwolaeth ei wraig, Rita, yn Holme Towers, Penarth, ar 27 Gorffennaf. Bu'r angladd yn Eglwys Dewi Sant ar 4 Awst ac yn dilyn yn Amlosgfa'r Ddraenen.
- Ros Evans a'r teulu yn Sain Ffagan ar golli ei gŵr, yr Athro Emlyn Glyn Vaughan, a fu farw yn Ysbyty Llandochau ar 4 Awst. Bu'r angladd yn Amlosgfa'r Ddraenen ar 15 Awst.
- Myfyr Isaac a'r teulu, Y Bontfaen, ar golli ei fam, Netta Isaac, yn Ysbyty Bronglais, Aberystwyth, ar 1 Awst. Bu'r angladdd yn Llanafan ar 6 Awst.
- Huw Pritchard a'i deulu, y Creigiau, ar farwolaeth ei wraig, Ruth, yn Ysbyty Brenhinol Llantrisant ar 7 Awst. Bu'r angladd yn Eglwys Dewi Sant, Caerdydd, ac yn dilyn yn Amlosgfa'r Ddraenen ar 15 Awst.
- Siw Huws, Treganna, ar golli ei mam yn Llangefni'n ddiweddar.
- Owen Rook a'r teulu, Rhiwbina, ar golli ei dad Norman Rook, ym Mhorthaethwy, Ynys Môn, ar 18 Awst. Bu'r angladd yn Eglwys y Santes Fair ym Mhorthaethwy ar 22 Awst ac yn dilyn ym mynwent y dre.

## Calendr y Dinesydd

(Mae Calendr y Dinesydd hefyd ar wefan Menter Iaith Caerdydd: http://www.mentercaerdydd.org/cymraeg/digwydd.htm)

**Llun, 15 Medi**
Cymdeithas Gymraeg Rhiwbina: Noson y Llywydd, Gwilym Roberts, ym Methany, Rhiwbina, am 7.30 p.m.

**Mawrth, 16 Medi**
Cymdeithas Cymrodorion y Barri: 'O Brotest i Broses.' Sgwrs gan y Parch. Aled Edwards, yn festri'r Eglwys Annibynnol Gymraeg, Sgwâr y Brenin, Y Barri am 7.15 p.m.

**Mercher, 17 Medi**
Cymdeithas Tŷ'r Cymry, 11 Heol Gordon: Noson Agoriadol y Gymdeithas, am 7.00 p.m. Anerchiad gan Dr Hefin Jones ar yr amgylchedd, a thrafodaeth yn dilyn. Bydd lluniaeth yn dilyn y drafodaeth.

**Mercher, 17 Medi**
Cymanfa Ganu a fydd yn cael ei recordio ar gyfer 'Dechrau Canu, Dechrau Canmol', yn y Tabernacl, Eglwys Annibynnol Gymraeg y Barri, Sgwâr y Brenin, Heol Holton, Y Barri am 7.00 p.m. Arweinydd: Iwan Guy.

**Iau, 18 Medi**
Cylch Cinio Merched Caerdydd, yng Nghlwb Golff Radur am 7.00 p.m. ar gyfer 7.30 p.m. Sgwrs gan Allan James ar ddiwylliant gwerin Morgannwg. Manylion pellach: 2065-7730 neu 2062-4878.

**Iau, 18 Medi-Sadwrn, 20 Medi**
Sgript Cymru yn cyflwyno 'Amdani!' gan Bethan Gwanas yn Theatr Sherman am 7.30 p.m. nos Iau, nos Wener a nos Sadwrn ac am 2.30 p.m. brynhawn dydd Sadwrn. Tocynnau: 029-2064-6900.

**Sadwrn, 20 Medi**
Ysgol Pen y Garth: Bydd Gardd Natur yr ysgol (a grewyd gan dîm Clwb Garddio S4C yn ddiweddar) ar agor i'r cyhoedd o 2.00 tan 5.00 o'r gloch. Bydd lluniaeth ysgafn am bris mynediad rhesymol yn ogystal â stondinau amrywiol. Croeso i bawb!

**Sadwrn, 20 Medi**
Cymdeithas Carnhuanawc: 'Hanes Lleol Llanfihangel Crucornau a Pandy.' Taith gerdded dan arweiniad Richard Davies (Cadeirydd Cymdeithas Hanes y Fenni). Cwrdd yn y maes parcio o flaen Neuadd y Pentref, Pandy (ar y ffordd i mewn i stâd Wern Giffard oddi ar yr A465 yn Pandy). Manylion pellach: post@carnhuanawc.net.uk neu 029-2062-3275.

**Gwener, 26 Medi**
Cylch Llyfryddol Caerdydd: 'Rhwng Dau Fyd: Bro a Bywyd Iorwerth Peate.' Darlith gan Dr R. Alun Evans, yng Nghapel Minny Street, Cathays, am 7.00 p.m.

**Llun, 29 Medi**
Cyfarfod cyntaf dosbarth yn trafod cyfansoddiadau llenyddol Eisteddfod Genedlaethol Maldwyn a'r Gororau dan arweiniad Dr E. Wyn James yn Ysgol Gyfun Martin Sant, Caerffili, am 7.00 p.m. Manylion pellach: 029-2062-8754.

**Iau, 9 Hydref**
Cyngor Eglwysi Cymraeg Caerdydd: Cyfarfod diolchgarwch yng Nghapel Minny Street, Cathays, am 7.30 p.m.

**Gwener, 10 Hydref**
Cylch Cadwgan: Bethan Gwanas yn siarad ar y testun 'Sgwennu' yn Neuadd y Pentref, Efail Isaf am 8.00 p.m.

**Llun, 13 Hydref**
Merched y Wawr, Cangen Caerdydd: 'Cymorth Cyntaf.' Sgwrs gan Siân Thomas, yn festri Eglwys Minny Street, Cathays, am 7.30 p.m.

**Mawrth, 14 Hydref**
Theatr Arad Goch yn cyflwyno 'Letus' gan Mari Rhian Owen yn Theatr Sherman am 7.30 p.m. Tocynnau: 029-2064-6900.

**Mercher, 15 Hydref**
Cymdeithas Tŷ'r Cymry, 11 Heol Gordon: ' O Bapur Ugain Punt.' Sgwrs gan Mrs Mallt Anderson, am 7.00 p.m.

**Sadwrn, 18 Hydref**
'Ffiniau'r Gymraeg'. Darlith gan Yr Athro Hywel Teifi Edwards mewn swper ffurfiol a drefnir gan Gronfa Glyndŵr Yr Ysgolion Cymraeg yng Nghlwb Golff Radur. Croeso i bawb. Am fanylion pellach a thocynnau cysyllter â'r Cadeirydd, Gerald Latter, ar 029 2056 2527.

**Llun, 20 Hydref**
Cymdeithas Gymraeg Rhiwbina: 'Parciau Cenedlaethol.' Sgwrs gan Elwyn Owen, ym Methany, Rhiwbina, am 7.30 p.m.

**Mawrth, 21 Hydref**
Cymdeithas Cymrodorion y Barri: 'Gwarchod y Byd.' Sgwrs gan Dr Hefin Jones, yn festri'r Eglwys Annibynnol Gymraeg, Sgwâr y Brenin, Y Barri am 7.15 p.m.

**Mawrth, 28 Hydref-Mercher, 29 Hydref**
Llwyfan Gogledd Cymru yn cyflwyno 'Ta Ra Teresa' gan Aled Jones William yn Theatr Sherman am 7.30 p.m. Tocynnau: 029-2064-6900.

***Anfonwch fanylion at Dr E. Wyn James, 16 Kelston Rd., Yr Eglwys Newydd, Caerdydd CF14 2AJ (Ffôn: 029-2062-8754; E-bost: JamesEW@caerdydd.ac.uk).***

# LLWYDDIANT YN LLANGOLLEN

Llongyfarchiadau mawr i fachgen ifanc o Gaerdydd a gafodd lwyddiant ysgubol ar lwyfan rhyngwladol yn Eisteddfod Gerddorol Ryngwladol Llangollen eleni.

Ar 12 Gorffennaf enillodd Selyf Shapey, o ardal Llysfaen, y wobr gyntaf yn yn y gystadleuaeth Unawd Offerynnol 16-30 oed. Fiolinydd 17 oed yw Selyf ac roedd yn anrhydedd fawr iddo i ennill cystadleuaeth mor eang. Yr ail yn y gystadleuaeth oedd oböydd o Hong Kong.

Mae Selyf yn ddisgybl yn Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf, a'i fryd ar fod yn feddyg. Dymunwn yn dda iddo yn y maes hwnnw hefyd.



Llun drwy ganiatâd *Lluniau Llwyfan*

# Beirdd a Llenorion o Fri

Llongyfarchiadau i'r canlynol ar eu llwyddiant ym Meifod:

Englyn: Dolwar Fach - Tony Bianchi, Fields Park Road.
Casgliad o gerddi gwreiddiol - Lowri Gwilym, Pontcanna.
Cerdd Vers Libre: Rebel - Christine James, Yr Eglwys Newydd.
Drama fer - Dafydd Llewelyn, Radur.

Wrth gwrs, merch o Gaerdydd fydd Mererid Hopwood tra bydd hi ac mae'r *Dinesydd* yn ymfalchïo yn ei champ yn ennill y Goron am bryddest ar y testun *Gwreiddiau*. Hynod o ddiddorol yw bod dau fardd sy'n byw yng Nghaerdydd ar hyn o bryd, ac yn byw mewn dwy stryd nesaf at ei gilydd yn Yr Eglwys Newydd, wedi dod o fewn trwch blewyn i gipio'r goron eleni - y ddau wedi eu rhoi yn ail gan wahanol feirniaid!

Cafodd pryddest *Hwnco manco* ei rhoi yn ail gan y beirniad Cyril Jones, a phryddest *Llain* ei rhoi'n ail gan Nesta Wyn Jones. Hyderwn y cawn gyfle i ddarllen y ddwy gerdd rhwng cloriau *Barddas* cyn bo hir. Yn y cyfamser mae sylwadau'r beirniaid yn y Cyfansoddiadau a Beirniadaethau yn ddiddorol ynddynt eu hunain.

*Hwnco manco* yw Meic Stephens, sy'n Athro Llenyddiaeth Saesneg Cymru ym Mhrifysgol Morgannwg ym Mhontypridd, a *Llain* yw Dr. E. Wyn James, sy'n Uwch Ddarlithydd yn Ysgol y Gymraeg ym Mhrifysgol Cymru, Caerdydd.

Peth arall sy'n gyffredin rhwng y ddau yw eu bod yn frodorion o Gwm Taf; a bod y ddwy bryddest wedi'u lleoli yn ardal Merthyr, a hynny hanner can mlynedd ar ôl i bryddest Dyfnallt Morgan, *Y Llen*, ddod yn ail yn yr Eisteddfod Genedlaethol yn

Parhad ar dudalen 11.

# Newyddion o'r Eglwysi

## Eglwys Dewi Sant

Mae'n siwr i lawer ohonoch fwynhau gwrando ar aelodau o Aelwyd CF1, Caerdydd, yn cystadlu yn yr Eisteddfod Genedlaethol ym Meifod. Ers rhai misoedd, mae Aelwyd CF1 yn cyfarfod i ymarfer yn Eglwys Dewi Sant. Yn ddiweddar, cynhaliwyd noson o adloniant ganddynt yn yr eglwys a oedd yn gyfle gwych inni werthfawrogi eu doniau amrywiol. Aeth rhan o elw'r noson tuag at gronfa ad-drefnu adeilad yr eglwys.



Y bwriad yw cael adeilad sy'n adlewyrchu ein gweinidogaeth a'n cenhadaeth Gristnogol Gymraeg yng nghanol prifddinas Cymru yn yr unfed ganrif ar hugain. Gobeithir cwblhau'r gwaith ad-drefnu erbyn dathliadau hanner can mlynedd Eglwys Dewi Sant yn ei safle bresennol yn 2006.

## Ebeneser

Ffarweliasom â phedwar o ffyddloniaid gweithgar Ebeneser yn ddiweddar wrth iddynt symud o Gaerdydd yn ôl at eu gwreiddiau. Mae'r Dr a Mrs Denzil a Beti Wyn Davies newydd symud i Gaerfyrddin, tra mae Mr a Mrs Glan a Bethan Roberts bellach wedi ymgartrefu yn Llangranog. Dymunwn yn dda iddynt yn eu heglwysi newydd.

Yn ôl ein harfer, bu mis Awst yn gyfnod o addoli ar y cyd rhwng Ebeneser a'r Tabernacl. Bellach mae'r ddwy eglwys wedi ail-gydio yn ein bywydau ysbrydol ar wahân unwaith eto. Agorodd yr Ysgol Sul ar gyfer tymor newydd ar ddechrau mis Medi.

## Minny Street

Cawsom dystio i fedydd dau o blant yr Eglwys ym mis Gorffennaf: Alaw Mai Evans, merch fach Mererid a Richard (Yr Eglwys Newydd) ar Orffennaf 6, ac Ifan Lewys Edwards, mab bach Iona a Geraint (Thornhill) a brawd bach i Daniel ar Orffennaf 20.

Croeso cynnes iawn i ddwy a anwyd ym mis Awst: Ruby Elinor Booth, merch fach i Siân a Michael (Llundain) ac wyres i Ray a John Phillips, a Cadi Nash, merch fach i Sioned ac Andrew (Rhiwbeina), chwaer i Mali ac wyres i Siân a Lewis Evans. Dymunwn yn dda i'r teuluoedd.

Fore Sul, Gorffennaf 6, hyfrydwch oedd cael derbyn chwech o aelodau newydd - cyfeillion sydd wedi bod yn ymuno yn ein hoedfaon yn gyson dros gyfnod, bellach: Iona Edwards (Thornhill), John a Marion Evans (Penarth), Richard Evans (Yr Eglwys Newydd), Kathryn Jones (Y Waun Ddyfal), a Robert Jones (Llandaf). Croeso cynnes iawn!.

Daeth blwyddyn yr Ysgol Sul i'w therfyn gyda Barbeciw a Chwaraeon yn Fferm Ymddiriedolaeth Amelia. Daeth nifer dda o'r aelodau o bob oed ynghyd, a chafwyd diwrnod hwyliog dros ben yn y gwres tanbaid!

Yn unol â'n harferiad, cawsom fendith o rannu oedfaon mis Awst gyda chyfeillion y Crwys a llawenydd i aelodau holl eglwysi Cymraeg y ddinas oedd llwyddiant y Côr Aelwyd Hamdden yn yr Eisteddfod ym Meifod - llongyfarchiadau i'r aelodau a'u harweinydd, Mrs Eilonwy Jones.

Edrychwn ymlaen at ail gydio yn yr Ysgol Sul ynghyd â nifer o gyfarfodydd eraill - hen a newydd - ym mis Medi.

## Bethel, Rhiwbina

Llongyfarchiadau i'r pedwar sydd wedi graddio eleni - Sara Roberts, Trystan Francis, Angharad Elfyn a Huw Elfyn.

Dymunwyd yn dda i Javier Bruntpatterson cyn iddo ddychwelyd i Batagonia ar ôl treulio blwyddyn yng Nghaerdydd yn dysgu Cymraeg.

Dymunir gwellhad buan i Mrs Hazel Williams a Mrs Nerys Smith.

Cynhaliwyd oedfa arbennig i nodi tri chanmlwyddiant geni John Wesley. Trefnwyd yr oedfa gan y Gweinidog, a chymerwyd rhan gan Mrs Iola James, Mrs Delyth Dunsford, Mrs Mair Owen, Mrs Mair Dyfri Jones, Mr Tom Smith, Mr Eifion Hopwood a Mr Gwilym Roberts.

## Cofio Mrs Mary Currie-Jones

*[Addasiad o deyrnged y Parch. Eifion Powell]*

Ar 18 Gorffennaf bu farw Mrs Mary Currie-Jones yn dawel yn ysbyty'r Brifysgol. Yr oedd yn bedwar ugain oed ac yn frodor o dre Dinbych lle'r oedd ei thad yn flaenor yn Y Capel Mawr. Yno hefyd, yn Ysgol Howell, y derbyniodd ei haddysg ac wedyn yn y coleg yn Lerpwl. Yn Y Capel Mawr y priodwyd hi â'i gŵr, Mr. Emyr Currie-Jones yn 1951 cyn dod i fyw i Gaerdydd am y gweddill o'i hoes yn un o gymwynaswyr mwyaf ymroddgar a diffuant bywyd cymdeithasol y ddinas.

Gellir edrych ar fywyd Mary Currie-Jones o fwy nag un safbwynt. Fel gwraig gŵr cyhoeddus adnabyddus, mawr ei barch, bu'n gefn ac yn ysbrydoliaeth iddo yn ei amryfal ddyletswyddau yn ystod ei yrfa. Yr oedd ganddi'r ddawn gynhenid i ymwneud â phobl, ac i wneud cyfeillion parhaol.

Nid llai amlwg ei diwydrwydd hi ei hunan mewn hyrwyddo achosion teilwng. Yn Llywydd Cymdeithas y Merched yn Eglwys Minny Street amlygodd ei dawn i hyrwyddo cydweithrediad rhwng pobl a'i gilydd. Yr oedd yn dra gweithgar gyda mudiad y Y.W.C.A. a'i diddordeb arbennig oedd lles a chynnydd hostelau'r mudiad yng Nghaerdydd. Fel canlyniad, fe'i gwnaed yn Llywydd y Y.W.C.A. dros Gymru gyfan. Bu'n Ynad Heddwch am dros ugain mlynedd gan ddangos diddordeb arbennig mewn Llysoedd Plant. Yn ogystal, coffa da am ei chyfraniad arbennig iawn tuag at sefydlu *Cartref* i oedolion ar lan ddwyreiniol Llyn Parc y Rhath. Mynych fu'r galw yno am ei chymorth i wneud newydd-ddyfodiaid yn gartrefol yn rhinwedd ei dawn i ddeall problemau ac i gydymdeimlo'n gwrtais.

Yr oedd urddas cynhenid yn nodwedd o bersonoliaeth Mary Currie-Jones; gwraig ddiwylliedig a darllengar, diysgog ei ffydd. Cydymdeimlwn yn fawr ag Emyr o golli yr hyn a alwodd yn 'gariad oes'.

## CÔR AELWYD HAMDDEN

Wedi misoedd o waith caled gwawriodd y diwrnod mawr - diwrnod a oedd yn gofyn am egni a dycnwch rhyfeddol i'n cynnal trwy wres a thensiwn y gystadleuaeth. Cododd pob aelod o'r côr (53 ohonynt) i'r sialens a chanu gydag arddeliad a theimlad - pob un ohonynt yn mwynhau bod ar lwyfan y Genedlaethol. Ni welais erioed gôr mor werthfawrogol o wobr - y wobr gyntaf ar ôl pedair blynedd o ddod yn drydydd! Llwyddiant haeddiannol a ddaeth â phleser mawr i bob un o'r cantorion (a'r arweinydd!).

Diolch i'r côr, y ddwy gyfeilyddes, Miss Lois Davies a Mrs Marion Williams, a'r swyddogion am eu gwaith, eu ffyddlondeb a'u cwmniaeth ar hyd y flwyddyn. Diolch hefyd i Mr. Euros Rhys Evans am y gwaith comisiwn hyfryd, Tresaith, ac i Mrs. Rhiannon Evans am ei chyfieithiad celfydd o un o'r darnau.

Noson y gystadleuaeth cawsom y profiad hyfryd o gydganu a chymdeithasu gyda'r côr a ddaeth yn drydydd, heb fymryn o 'gythraul y canu', a phawb wrth eu bodd. Dyma esiampl fach o ysbryd hynaws y côr.

Os hoffech ymuno â ni byddwn yn ail-ddechrau ddydd Mercher, 1 Hydref. yn festri Capel Minny Street o ddau o'r gloch hyd at bedwar. Dewch atom! Cewch groeso brwd i gymdeithas glos, gynnes - a digon o hwyl.

*Os am ragor o fanylion cysylltwch â Mrs. Gwenith Morgan 20693851.*

**Eilonwy Jones**



Côr Aelwyd Hamdden ym Meifod

## BUDDUGOLIAETH ARALL I GÔR CAERDYDD

Unwaith eto eleni, daeth buddugoliaeth i Gôr Caerdydd yng nghystadleuaeth y corau cymysg dros 45 o leisiau yn Eisteddfod Genedlaethol Maldwyn. Dyma'r nawfed wobr gyntaf i'r Côr yn yr Eisteddfod Genedlaethol ers ei sefydlu ym 1992. Derbyniwyd canmoliaeth uchel i'w perfformiad gan y beirniaid, gyda chlod arbennig yn mynd i faswyr y Côr. Daw aelodau Côr Caerdydd o bob cwr o Gymru, ac mae croeso bob amser i aelodau newydd ar nos Fercher yng Nghanolfan yr Urdd, Heol Conwy am wyth o'r gloch. Ar Fedi'r 25ain, fe fydd Côr Caerdydd yn rhannu llwyfan gyda Peter Karrie yn Neuadd Dewi Sant.

**Gwawr Owen**

## CF1

Ffenomen ddiddorol dros y blynyddoedd diweddar fu gweld nifer o fyfyrwyr y colegau yn llunio aelwydydd coleg ac yn cystadlu'n frwdfrydig ar lwyfan Eisteddfod yr Urdd. Daeth nifer o gyn-fyfyrwyr y colegau hyn ynghyd a sefydlu Aelwyd newydd yng Nghaerdydd er mwyn medru parhau i gystadlu. Gan iddynt gynnal eu cyfarfod cyntaf yn festri'r Tabernacl, benthycwyd y côd post sydd i ganol y ddinas, a galw'r aelwyd yn Aelwyd CF1. Nod y criw yw mwynhau cerddoriaeth glasurol a phoblogaidd, llefaru a dawnsio gwerin ac i ddifyrru cynulleidfaoedd a chystadlu yn yr Eisteddfodau lleol a chenedlaethol.

Ym Meifod eleni profwyd llwyddiant eto drwy ennill cystadleuaeth Ensemble Sioe Gerdd a chael eu dyfarnu'n drydydd yng nghystadleuaeth Côr Ieuenctid. Ymhlith yr unigolion a ddaeth i'r brig, llongyfarchwn Deiniol Rees ar ennill Unawd Sioe; Osian Rowlands ar ddod yn ail yng nghystadleuaeth Unawd Opera dan 25 oed, Gavin Ashcroft ar ei lwyddiant yn y dawnsio gwerin a hefyd ar ei wobr gyntaf yn y deuawd Cerdd Dant gyda'i gyn-athrawes o Rydfelen, Menna Thomas, a Mari Grug a ddaeth yn drydydd yn y gystadleuaeth llefaru. Mae nifer o'r aelodau yn arwain ac yn cyfeilio, ond bydd pawb am gydnabod cyfraniad brwdfrydig Eilir Griffiths fel prif arweinydd y côr.

Ceir ymarferion bod nos Lun yn festri Eglwys Dewi Sant ac mae croeso i unrhyw un ymuno yn yr hwyl. Bydd gweithgarwch y tymor nesaf yn ailddechrau nos Lun, 8 Medi. Os am fwy o wybodaeth cysylltwch â Catrin Mears ar 07980 275277, Osian Rowlands ar 07980 302285 neu Aled John ar 07815 142729. Trefnwyd amryw o ddigwyddiadau rhwng mis Medi a'r Nadolig, yn cynnwys Gwyl Ddawns Ryngwladol Iwerddon a thaith i'r Eidal. Mae'r arlwy yn ddifyr a'r cymdeithasu'n fywiog.

**Aled John**

## SIAMPÊN YN TROI'N CHWERW....

Côr CF1 yn fuddugol; Côr Caerdydd yn fuddugol; Côr Aelwyd Hamdden Caerdydd yn fuddugol. Mae'n siwr fod disgwyliadau trigolion Cymraeg y Brifddinas yn uchel gogyfer perfformiad Côrdydd ar ddydd Gwener yr Eisteddfod, yn enwedig ar ôl iddynt gipio'r wobr yng Nghystadleuaeth Radio Cymru Côr Cymru 2003 yn gynharach eleni.

Wel os oedd 'na ddisgwyl mawr - siom a gafoedd ein cefnogwyr, heb sôn amdanon ni, aelodau'r côr. Siomedigaeth lem!!!

Mi oedd yna 7 côr yn brwydro am y fuddugoliaeth yn y gystadleuaeth Côr Cymysg rhwng 20-45 mewn nifer. A Chôrdydd oedd y cyntaf ar y llwyfan. Wedi misoedd o chwysu, bloeddio a diffyg cwsg, roeddwn fel arweinydd yn hollol sicr na allai'r 45 aelod bochgoch (o ganlyniad i wres tanbaid y Pafiliwn) fod wedi canu'n well. Dyma felly obeithio y byddai'r tri beirniad yn cytuno! Wedi dweud hyn, roedd yr hen 'elynion', Adlais, ABC a Chantorion y Rhos, ac ambell i gôr newydd arall, wedi rhoi gwir her i'r corau i gyd, a rhaid oedd derbyn fod y safon yn uchel iawn eleni.

Heidiodd y côr i wrando ar y feirniadaeth. A dyma Eifion Thomas yn dechrau traddodi, yn dra haelionus a chanmoliaethus am Gôrdydd, ac o glywed y chwe dyfarniad canlynol, roeddwn i'n gobeithio bod fy ngreddf yn gywir!

Ond och a gwae - fel pob drama dda, roedd 'na dro i'r gwt! Roedd yr Eisteddfod wedi penderfynu gwneud esiampl o'r gystadleuaeth hon, a chosbi'r pum côr allan o'r saith, oedd wedi canu dros y ddeuddeng munud penodedig. Roedd wynepryd y tri beirniad yn adlewyrchu eu teimladau hwy ac, yn wir, deimladau'r corau. Anghredinedd bur!

O ganlyniad, mi aeth Côrdydd o fod yn gyntaf yn ôl beirniadaeth wreiddiol y beirniad, i fod yn 6ed allan o 7! Hyn wedi i'r Eisteddfod orfodi'r beirniad i newid y dyfarniad. Cwympo o 91 o farciau i 51! Mae'r peth yn chwerthinllyd erbyn hyn, ryw fis ar ôl y digwyddiad - ond doedd yr un ohonon ni'n chwerthin ar y pryd!

Fodd bynnag, wedi'r sylweddoliad fod y gallu i gyfri yn tra-arglwyddiaethu dros safon cerddorol, dim ond un peth oedd i wneud. Felly mas â'r Côr i ddathlu beth bynnag! Cafwyd noson arbennig ym Meifod, yn canu dros beint gydag aelodau Adlais a Chôr Eifionydd. Ond os nad oeddech chi yn digwydd bod ym Meifod y noson honno, tybed allwch chi ddychmygu beth oedd prif thema ein sgyrsiau.....??!!!!

Gyda llaw, yn dilyn digwyddiad tebyg yn Eisteddfod Tawe Nedd ac Afan eleni - mi fyddai'r Côr yn barod i dderbyn rhyw fath o iawndal gan unrhyw gwmni hedfan....maen nhw'n dweud fod y Maldives yn le braf!

**Sioned Jones**

# Anrhydeddu un o bileri'r mudiad dros addysg Gymraeg yn y ddinas

*[Addasiad o gyflwyniad yr Athro Sioned Davies yn seremoni dyfarnu gradd MA Prifysgol Cymru, er anrhydedd, i Tom Evans ar 14 Gorffennaf.]*

Heddiw mae naw ysgol gynradd Gymraeg yng Nghaerdydd a rhyw 2,800 o blant y brifddinas yn derbyn eu haddysg gynradd trwy gyfrwng yr iaith Gymraeg. Ond ddechrau'r 1970au - dim ond un ysgol Gymraeg gynradd a oedd yng Nghaerdydd, Ysgol Bryntaf, a Mr Tom Evans yn brifathro arni.

A ninnau heddiw yn cymryd ysgolion Cymraeg yn ganiataol, anodd efallai yw dychmygu'r her a wynebai Tom Evans a'i staff. Yr oedd yn gyfnod anodd: dim strategaeth o unrhyw fath gan Bwyllgor Addysg Caerdydd ar gyfer datblygu addysg Gymraeg yn y brifddinas; adeiladau'r ysgol yn hollol annigonol (yn wir, fe'i hail-leolwyd ar un adeg mewn adeilad a oedd wedi ei gondemnio!); gwrthwynebiad chwyrn gan y bobl leol oherwydd y problemau trafnidiaeth a achoswyd gan yr holl fysys a gludai'r plant i'r ysgol - roedd yn ddalgylch enfawr, sef dinas Caerdydd i gyd. Na, nid oedd pethau'n hawdd. Ond cafwyd llwyddiant, diolch i arweiniad ac ysbrydoliaeth Tom Evans. Yn wir, cyflawnwyd camp anhygoel. Denwyd plant yn gynyddol o gartrefi di-Gymraeg y brifddinas i Ysgol Bryntaf, a datblygwyd rhaglen drochi, un o'r rhai mwyaf llwyddiannus yn Ewrop, a drosglwyddai'r iaith i'r plant, ac ar yr un pryd fe'u gwreiddid yn niwylliant Cymru. Gwir yw'r ddihareb, *O fesen, derwen a dyf.* Oherwydd dyfalbarhad Tom Evans, datblygodd y ddarpariaeth, a heddiw, heblaw naw ysgol gynradd, mae yma yng Nghaerdydd ddwy ysgol uwchradd Gymraeg a thua 2,000 o ddisgyblion ynddynt. Nid darpariaeth i ateb dyhead Cymry Cymraeg yn unig yw hon, ond hefyd ddyhead y di-Gymraeg yn y gymdeithas gosmopolitan sydd ohoni yn y brifddinas, a dros 75% o'r disgyblion yn dod bellach o gartrefi di-Gymraeg.

Yr ydym ni yn Adran y Gymraeg, yn y Brifysgol, yn ymfalchïo yn y cysylltiad sydd wedi bod rhyngom a'r Mudiad Ysgolion Cymraeg yma yng Nghaerdydd. A heddiw, rhan o'n cenadwri ni yn yr Adran yw darparu athrawon i ddysgu'r Gymraeg, cyfrannu at ymchwil ym maes cynllunio ieithyddol, a chynnig cyrsiau iaith ar gyfer rhieni di-Gymraeg ysgolion Caerdydd.

Mae derbyn addysg trwy gyfrwng y Gymraeg yn hawl gynhenid gan bob plentyn sydd yn byw yng Nghymru. Yr ydym yn cydnabod y rhan allweddol a chwaraeodd Mr Tom Evans er mwyn gwireddu hyn, ac yn eich anrhydeddu, syr, ar ran holl blant a rhieni Caerdydd, am sicrhau eu bod heddiw, yn yr unfed ganrif ar hugain, yn cael dewis.

## Cofio Dr. Dewi M. Lewis

*[Addasiad o deyrnged gan y Parch. Glyn Tudwal Jones]*

Dydd Iau Cablyd, noson cyn y Groglith, bu farw Dr. Dewi Lewis, dinesydd amlwg ac un o hoelion wyth Eglwys y Crwys.

Gŵr amryddawn ac amlochrog oedd Dewi, wedi dringo i'r brig ac yn uchel ei barch ym mhob maes y trodd ei law ato. O ran ei broffesiwn roedd yn feddyg seiciatryddol y tu hwnt o alluog, ond roedd hefyd yn organydd dawnus, yn flaenor diwyd ac yn athro Ysgol Sul brwd yn Y Crwys, lle y daeth yn aelod ar ôl symud o Lundain ym 1988. Uwchlaw popeth arall, roedd yn ŵr teuluol oedd yn hapusach ar ei aelwyd ac ymysg ei deulu ei hun nag yn unman; gŵr mwyn a meddylgar, annwyl a charedig.

Roedd yn fab i'r diweddar Barchedig. L. M. Lewis, a fu'n weinidog gyda'r Presbyteriaid yn Llandybie cyn symud i Gwm Ogwr, lle y ganed Dewi. Symud wedyn i'r Porth, Rhondda, ac yna i'r Creunant, ac yntau'n wyth a hanner oed, lle y cafodd ei fagu, mewn gwirionedd. O Ysgol Ramadeg Cwm Nedd aeth i ysgol feddygol Guy's yn Llundain a dechrau ar ei gwrs hir i hyfforddi'n feddyg. Penderfynodd arbenigo fel Seiciatrydd ac enillodd lu o anrhydeddau academaidd yn y maes hwnnw, gan gynnwys F.R.C.Psych. a'i galluogodd i fod yn Seiciatrydd Ymgynghorol. Gwnaeth waith ymchwil pellach gan ymddiddori mewn schizophrenia. Roedd yn gweithio yn ysbyty St. Bernard, Ealing, ond ef hefyd fyddai'n trin yn seiciatryddol rai oedd yn derbyn trawsblaniad calon yn ystod y dyddiau cynnar hynny yn ysbytai Harefield a Mount Vernon - gan gynnwys un o aelodau'r Crwys, sef y diweddar Ken Innes.

Estynnwn gydymdeimlad dwys â'r teulu yn eu profedigaeth a'u hiraeth.

Diolch i Gronfa Goffa Gwyn Daniel am rodd hael tuag at gynnal *Y Dinesydd*. Mae'r Gronfa'n cynnig grantiau bychain i sefydliadau ac unigolion er mwyn hyrwyddo'r Gymraeg ym myd addysg. Am fwy o wybodaeth cysyllter â'r Ysgrifennydd, Huw Roberts, ar 029 2076 6283: huw.roberts7@btinternet.com

## WEDI MEIFOD gan Roy Saer

Ar ôl dod adre o'r Genedlaethol hyfrytaf inni fod ynddi, dyma bendrymu ychydig uwchlaw'r ddarpariaeth ym maes cerddoriaeth draddodiadol (a hyn, fe ddylwn ychwanegu, heb geisio ystyried meysydd arbenigol cerdd dant a dawnsio gwerin).

Am y cystadlaethau llwyfan, y calondid pennaf eleni fu gweld y gystadleuaeth grŵp offerynnol/lleisiol yn ennill ei phlwy o'r diwedd. Ond llawn mor bwysig, wrth gwrs, yw'r gweithgarwch anghystadleuol yn y Brifwyl. Gan adlewyrchu hen gysylltiadau Maldwyn cafwyd dwy raglen berthnasol yn y Babell Lên, y naill ar 'Nansi' a'r llall ar draddodiad y blygain. Ar Faes B, yn sgîl gweledigaeth Panel Ieuenctid yr Eisteddfod, sefydlwyd Penwythnos Gwerin o'r newydd. Ac o gwmpas y prif Faes gwelwyd mwy nag arfer o berfformiadau 'awyr-agored' lled anffurfiol - diolch yn arbennig i gorff **trac** (traddodiadau cerdd cymru) a fu'n eu trefnu. Gyda'r hwyr, wedyn, ymddangosodd Siân James, Plethyn ac eraill yng Nghyngerdd Agoriadol yr ŵyl; bu cryn fwrlwm ar sesiynau tafarn y Cann Office yn Llangadfan, a bonws oedd cyngerdd Llio Rhydderch (ar y deir-rhes), Cass Meurig (y crwth) ac eraill yn eglwys Meifod.

Ar y cyfan, felly, roedd amryw bethau i'w croesawu. Ac i'r dyfodol? Wel, gorau oll os gellir datblygu ymhellach ar sail addawol y rhain. Yn achos y gystadleuaeth offerynnol/lleisiol mae angen parhau i hybu'r hen offer cerdd Cymreig ond ar yr un pryd roi cyfle i wahanol offer eraill - a thrwy weithio law-yn-llaw â **COTC** (Cymdeithas Offerynnau Traddodiadol Cymru) a **trac** fe ddylid medru dwyn y maen i'r wal yn daclus ryw ddydd. Am y Penwythnos Gwerin arloesol, fel yr adroddwyd yn Golwg, "gyda chydig mwy o feddwl, fe allai fod yn brosiect llwyddiannus dros ben". (Un awgrym, gyda llaw, gogyfer â'r prif Faes: beth am gynnwys rhagor o berfformiadau Gwerin o fewn i'r babell 'roc'?) Ac yn olaf - dim ond cadw seiniau cerddorion rhag tarfu'n ormodol ar ei gilydd (ac ar bobl eraill!) - bendith fyddai cael mwy eto o weithgarwch cerddorol anffurfiol o gwmpas y Maes. Wedi'r cwbl, nid pawb o ddeiliaid cerddoriaeth draddodiadol sydd o blaid y cysyniad o gystadlu a beirniadu, neu'r sefyllfa berfformio yn y Pafiliwn, heb sôn am arddull or-glasurol rhai datgeiniaid 'gwerin' neu hyd yn oed y canu'n ddigyfeiliant. O ran yr Eisteddfod ei hunan, nid oes arni ofn mabwysiadu syniadau newydd ac mae'n ddigon cadarn a chytbwys, dybiwn i, i allu cario'r cwbl hyn yn eithaf cyffyrddus.

menter caerdydd

## Cynlluniau Gofal Menter Caerdydd 2003

Joio mas draw!
Fe fynychodd dros 300 o blant Gynlluniau Gofal Haf Menter Caerdydd eleni. Roedd 4 cynllun yn rhedeg ar hyd ac ar led y ddinas - 3 Cynllun Cynradd yn Ysgol Treganna, Ysgol Coed y Gof a Chanolfan Bethel, ac un Cynllun Meithrin yng Nghanolfan Ieuenctid Waterhall. Dyma'r unig Gynlluniau Gofal Cymraeg eu hiaith yng Nghaerdydd. Roedd y plant wrth eu bodd yn cymryd rhan mewn nifer o weithgareddau amrywiol o sesiynau crefft a chwaraeon i gerddoriaeth a theithiau diwrnod. Bwriad Menter Caerdydd yw rhedeg y Cynlluniau trwy gydol y flwyddyn. Fe fydd y Cynlluniau nesaf yn rhedeg adeg hanner tymor yr Hydref.



Sali Mali a Sam Tân yn ymweld â'r Cynllun Meithrin yng Nghanolfan Ieuenctid Waterhall

## Clybiau Plant

**Mae'r clybiau isod yn cychwyn Wythnos 15 Medi.**

**CLWB CLOCSIO** Ysgol Pencae, Llandaf 5.15pm-6.15pm
**CLWB DAWNS** Canolfan yr Urdd, Conway Rd. 5.00pm-6.00
**CLWB JIWDO** Ysgol Pencae, Llandaf 4.30pm – 6.15pm
**CLWB NOFIO** Ysgol Uwchradd Yr Eglwys Newydd 7pm-8pm
**CLWB DRAMA** Ysgol Gyfun Glantaf 4.30pm-5.30pm
**CLWB CELF** Neuadd Llanofer Hall, Romilly Rd 5.00pm – 6.00pm




## Cinio Carnhuanawc

**Yng Ngwesty Churchills**
**Nos Wener, Tachwedd 7fed, 2003**
**7.30 pm**

**Siaradwr Gwadd - Dr Dulais Rhys**
**"Y Bachgen Bach o Ferthyr"**

**Tocynnau : £15**

**Cysyllter ag Alan Jobbins (2062 3275)**


## Noson Blasu Gwin

Roedd Le Gallois dan ei sang Nos Lun, Gorffennaf y 14eg ar gyfer digwyddiad diweddaraf Menter Caerdydd. Daeth nifer o Gymry'r ddinas a'r ardal gyfagos ynghyd i gymdeithasu, bwyta ac, wrth gwrs, i flasu gwin! Cafwyd noson arbennig a phawb wrth eu boddau'n blasu'r amrywiaeth o winoedd dan arweiniad Francis Dupuy o gwmni gwin FranceGalles. Diolch o galon i Francis am ei gynghorion gwerthfawr a diddorol. Yn dilyn noson mor llwyddiannus rydym yn bwriadu trefnu noson arall debyg fis Medi.

## Clybiau Oedolion

**Clwb Rygbi Merched**
Cyfarfod bob nos Fercher ar Faes y Deiamwnt CHOB
6.30-7.30 Tymor yn Cychwyn nos Fercher, 17 Medi.
Cyfarfod Cychwynol 10 Medi am 8yh yn y Mochyn Du.
**Gwersi Sbaeneg trwy gyfrwng y Gymraeg**
Tymor 12 wythnos yn cychwyn nos Lun, 15Medi. 7-9yh
Lleoliad i'w gadarnhau.
**Gwersi nofio**
Pwll Nofio Ysgol Uwchradd yr Eglwys Newydd (Ysgol Isaf)
Gwersi'n cychwyn nos Fawrth, 16 Medi. 8 - 9yh.
**Clwb Rhedeg**
Bob nos Lun a nos Iau.
Cyfarfod am 6.30yh tu allan i ystafelloedd newid Caeau Pontcanna (NID Caeau Llandaf!) Croeso i Bawb - pa safon bynnag. Llwybrau a phellter yn ôl gallu rhedwyr.

*Am fanylion pellach am unrhyw un o weithgareddau Menter Caerdydd, cysylltwch ag Angharad Thomas yn swyddfa'r Fenter ar 029 20565658 neu angharadthomas@mentercaerdydd.org neu www.mentercaerdydd.org*


CARDIFF UNIVERSITY
PRIFYSGOL CAERDYD

Ysgol Cerddoriaeth

# Catrin Finch

Neuadd Gyngerdd
yr Ysgol Cerddoriaeth

Dydd Mawrth, 7 Hydref
7.30 y.h.

**Swyddfa Docynnau**
**0870 013 1812**
£7, £5 (consesiwn), £3 (myfyrwyr)

Cyfle i glywed datganiad gan delynores swyddogol Tywysog Cymru ac un o dalentau cerddorol mawr ein cyfnod. Y rhaglen i gynnwys darnau gan Bach, Fauré, Glinka, Albeniz, de Falla a Mathias.

Ysgol Cerddoriaeth, Ffordd Corbett, Caerdydd CF10 3EB

# Bro Morgannwg

## YR YSGOL DDI-BAPUR?

gan Huw Lewis 9G

Gwneir defnydd helaeth o dechnoleg gwybodaeth yn Ysgol Gyfun Bro Morgannwg.

Aeth pedwar disgybl o'r ysgol i gyfarfod o bwyllgor addysg y Cynulliad ar ddyfodol addysg yng Nghymru gan ganolbwyntio'n bennaf ar y dechnoleg mae'r ysgol yn ei ddefnyddio. Buont yn siarad ac yn ateb cwestiynau aelodau'r pwyllgor ar sut gallai technoleg gwybodaeth gael ei gynnwys yn fwy ym myd addysg a'r potensial o ddatblygu system e-ddysgu yn y Cwricwlwm Cenedlaethol.

Pan sefydlwyd yr ysgol, un o'r amcanion oedd creu ysgol ddi-bapur, ac er ei bod yn anodd credu wrth weld pa mor brysur yw'r ystafell llun-gopio, mae'r ysgol ar ei ffordd i gyflawni'r amcan hwn!

Elfen TG arloesol arall yn yr ysgol yw'r fewnrwyd sydd yn galluogi'r disgyblion a'r athrawon i anfon gwybodaeth a chyhoeddiadau at ei gilydd. Gellir cael mynediad i dudalennau personol y disgybl ar gyfrifiadur y tu allan i'r ysgol. Mae'r fewnrwyd yn galluogi'r disgyblion i anfon negeseuon i'w gilydd a rhannu gwaith cartref.

Mae gwefan allanol wedi'i chreu hefyd gyda gwybodaeth ynglŷn â'r ysgol ar www.bromorgannwg.org.uk. Un o'r targedau ar gyfer y flwyddyn i ddod yw datblygu'r wefan a'r fewnrwyd ymhellach, fel bod modd i rieni dderbyn llawer mwy o ohebiaeth a chyhoeddiadau'r ysgol yn y dull di-bapur yma.



## FÉLICITACIONS!

Llongyfarchiadau mawr i Owain Davies 9M am ennill canmoliaeth uchel mewn cystadleuaeth trwy Brydain a gynhaliwyd gan gyhoeddwyr Heinemann yn ddiweddar. Lluniodd Owain gyflwyniad *PowerPoint* ar yr ysgol yn Ffrangeg.



## TIPYN O GAMP

Llongyfarchiadau hefyd i Candice Hellyar 7O am ei llwyddiant yng Ngŵyl Athletau Bro Morgannwg 2003. Fe enillodd Candice y wobr gydradd gynta' yng Nghystadlaethau Catergori 1 - sef taflu pêl griced, y waywffon a'r pwysau. Roedd Candice ymlith disgyblion o ysgolion cynradd ac uwchradd y Sir ac roedd y cystadlu, ym Mharc Jenner y Barri, yn frwd iawn!

**CYDNABYDDIR CEFNOGAETH BWRDD YR IAITH GYMRAEG I'R CYHOEDDIAD HWN**

Os oes angen gwybodaeth o unrhyw fath am yr iaith Gymraeg, galwch y LLINELL GYSWLLT . . .

**0845 6076070**

Llun - Gwener 10.00am - 12.30pm, 1.30 - 3.30pm

cyfradd galwadau lleol

www.mentrau-iaith.com www.bwrdd-yr-iaith.org.uk www.papurau-bro.com

# YSGOL COED-Y-GOF

### Brenda Jones



Ar ôl deunaw mlynedd o wasanaeth diymhongar, daeth tro Brenda i ymddeol! Roedd yn gaffaeliad i blant Coed-y-Gof gyda'i thalentau amrywiol a'i chefndir cerddorol. Bu'n gefn ac yn ysbrydoliaeth i waith yr Uned Arbennig gan roi o'i hamser a'i gwasanaeth yn ddiflino. Daeth y cyn-ddisgyblion a'r disgyblion presennol o'r Uned a'i ffrindiau i gyd at ei gilydd i ddymuno ymddeoliad hapus iddi ar ddiwedd y tymor. Diolch o galon Brenda!

Ar ôl gwaith caled ar eu cywaith tymhorol 'Moch', cafodd plant Uned Arbennig Coed-y-Gof wahoddiad i gael pryd o fwyd arbennig yn y Mochyn Du. Roedd y selsig, sglodion a'r hufen iâ y arbennig o flasus! Diolch i Mr. Terry Radford a pherchnogion y Mochyn Du am eu caredigrwydd.



Bu un o athrawon Coed-y-Gof, Mr. Iolo Davies, yn ffilmio gyda saith o'i ddisgyblion ar gyfer rhaglen deledu 'Dwy Ysgol - Dau Fyd'. Yr ysgol arall oedd Ysgol Llanefydd yn Sir Ddinbych. Daeth plant Llanefydd gyda'u hathrawon i Goed-y-Gof ac fe gawsant gyfle i flasu bywyd mewn dinas ac i ymweld â llefydd diddorol megis Techniquest a Stadiwm y Mileniwm. Bydd y rhaglen yn cael ei darlledu ar S4C.

# YSGOL GYMRAEG BRO EIRWG

### Disgyblion Blwyddyn Pedwar yn helpu plant Belarws

Cynhaliodd disgyblion Blwyddyn 4 sesiwn o ddistawrwydd noddedig ar ôl cael eu hysbrydoli gan ymweliad un o famau'r Ysgol â Belarws. Clodforwyd eu hagwedd aeddfed a gofalgar gan aelod o elusen, *Leaves of Hope*, a chasglwyd £750 i helpu'r plant bach amddifad.

### Ennill cystadleuaeth dylunio logo

Fe gafodd dau ddisgybl o Fro Eirwg, sef Siobhan Jenkins a Morgan Bevan Evans, y fraint o weld eu gwaith dylunio logo, ar arwyddbost swyddogol Llwybr Afon Rhymni. A ydych wedi cerdded ar hyd y llwybr yma eto?

### Dau ddathliad priodas ymhlith y staff

Braf iawn oedd cael dymuno priodas dda i Iwan Davies a briododd Bethan ar 8 Awst ac i Gwyneth Micah a briododd Rhys ar 30 Awst.

# Glantaf

## Croesawu Pennaeth Newydd



Estynnwn groeso cynnes i Bennaeth newydd Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf, Mrs. Rhiannon Lloyd.

Dywedodd Mrs. Lloyd mai un o'i phrif nodau fydd "cynnal a hyrwyddo Cymreictod yr ysgol - codi ymwybyddiaeth pawb o drysor amhrisiadwy addysg Gymraeg a dwyieithog". Yn hyn o beth edrycha ymlaen yn aruthrol, meddai, at gydweithio ag athrawon, disgyblion, llywodraethwyr, rhieni a chymuned ehangach Ysgol Glantaf, "gan adeiladu ar y sylfeini rhagorol a osodwyd gan y ddau gyn-brifathro".

Mae Mrs. Lloyd ei hun yn rhan o gynnyrch y chwyldro mewn addysg Gymraeg. "Roeddwn i'n un o'r disgyblion cyntaf yn yr ysgol Gymraeg newydd a agorwyd yn y pumdegau mewn caban sinc yn Ynysmaerdy," meddai. "Dim ond rhyw ddwsin o blant oedd yn yr ysgol - erbyn hyn mae dwy ysgol Gymraeg yn ardal Castell Nedd!"

O Ysgol Ramadeg y Merched yng Nghastell Nedd, enillodd ysgoloriaeth i astudio Cymraeg, Ffrangeg a Lladin yng Ngholeg y Brifysgol Bangor, gan raddio â dosbarth cyntaf yn y Gymraeg. Dwy flynedd o ymchwil, ac yna cychwyn ar yrfa ddisglair ac amrywiol, yn cynnwys cyfnod yn athrawes Gymraeg a Ffrangeg yn Aberteifi, secondiad i weithio ar broject y Cyngor Ysgolion - addysg ddwyieithog, blwyddyn yn Uned Iaith Genedlaethol Cymru ym Mhontypridd, a chyfnod yn Bennaeth yr Adran Gymraeg a Phennaeth y Gyfadran Ieithoedd yn Ysgol Maes Garmon.

Pan aeth Mrs. Lloyd oddi yno yn Ymgynghorydd y Gymraeg ac Addysg Ddwyieithog yng Ngwynedd, fe ddaeth yn berson adnabyddus i athrawon Cymraeg drwy'r wlad. Roedd hi'n lladmerydd bywiog a grymus i Bolisi Iaith newydd a blaengar y sir honno. Nid rhyfedd, felly, iddi gael ei phenodi yn Arolygydd Ei Mawrhydi - swydd a lanwodd ag arddeliad am ryw bymtheg mlynedd, gan ennill parch ac edmygedd am ei gwaith trylwyr a chefnogol.

Fel y gellid tybio, felly, un arall o nodau'r Pennaeth newydd yw "sicrhau bod yr ysgol yn parhau i ddisgleirio'n academaidd ac yn cyrraedd y safonau uchaf posibl ym mhob maes"! Ynghanol yr holl sôn am safonau a thargedau y dyddiau hyn, braf yw gallu ei dyfynnu'n dweud y geiriau hyn: "A thrwy'r cyfan, hoffwn i'r ysgol fod yn lle hapus a chyfeillgar - lle da i ddisgyblion ac athrawon fod ynddo bob dydd".

Ar ran y Dinasyddion, Mrs. Lloyd, croeso a phob dymuniad da yn eich swydd newydd.

**kotzmuth-williams**
*architects* *penseiri*

Darganfyddwch gwir werth eich cartref

- Ymgynghoriad cyntaf am ddim
- Tai newydd / estyniadau
- Ceisiadau Cynllunio
- Rheolau Adeiladu

02920 504078
Tŷ Regus, Bae Caerdydd, CF83 4EW
sionwilliams@kwarchitects.com
www.kwarchitects.com

### Tri Dinesydd Ym Mrwsel



Yn gynharach eleni fe ddathlodd Clwb Rygbi Cymry Caerdydd fuddugoliaeth nodedig yn rownd derfynol Cwpan Rhanbarthau Cymru yn Stadiwm y Mileniwm. Ym mis Medi bydd tri aelod o'r Clwb yn chwarae dros dîm Clwb Rygbi Celtaidd Brwsel - Mark Beynon, Aled Thomas a Dylan Hughes (llun).

Cafodd y tri swyddi ym mhrifddinas Gwlad Belg yn dilyn polisi yr Undeb Ewropeaidd ar ran gwahanol fudiadau yng Nghymru - Mark yn Uwch Swyddog Datblygu Ewropeaidd gydag Amgueddfeydd ac Orielau Cenedlaethol Cymru, Aled yn Swyddog Polisi gyda Swyddfa Ewropeaidd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, a Dylan, sy fel arfer y gyfreithiwr yn Adran y Cwnsler Cyffredinol yn y Cynulliad Cenedlaethol yng Nghaerdydd, yn mynd ar secondiad i Adran Y Cyfarwyddiad Cyffredinol ar gyfer Cystadleuaeth yn y Comisiwn Ewropeaidd. Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i'r tri.

Er mai Clwb Celtaidd yw e, mae pobol o sawl gwlad yn aelodau - Lloegr, De Affrica, Awstralia, Yr Almaen, Ffrainc, Iwerddon, Yr Alban, Y Swisdir, Yr Ariannin, a hyd yn oed un chwaraewr o Wlad Belg! (Mae cymaint o dramorwyr ym Mrwsel fel bod hyn yn beth anarferol!) Ond mae pump o'r tîm yn Gymry, a Dylan, eleni, fydd y Cymro cyntaf i fod yn gapten.

Ym Mhrâg y bu Clwb Rygbi Cymry Caerdydd ar ei daith Ewropeaidd eleni. Dyfalwch ble byddan nhw y tymor nesa!! Os oes unrhywun o Gaerdydd yn mynd allan i Frwsel am gyfnod ac am chwarae rygbi, dwedodd Dylan bod croeso iddyn nhw gysylltu ag e ar +32 (0) 2 29 90431 / Dylan.HUGHES@cec.eu.int Am fwy o fanylion am y Clwb Celtaidd, meddai, ewch at www.brusselsceltic.com lle gwelwch chi hanes y Clwb yn Gymraeg - a sawl iaith arall!

## Newid Prif Ddosbarthwr *Y Dinesydd*

Mae rhwydwaith o ddosbarthwyr gwirfoddol yn sicrhau bod copïau o'r *Dinesydd* yn cyrraedd dwylo'r darllenwyr o fis i fis. Yr un a fu'n gyfrifol am drefnu ac arolygu'r holl rwydwaith dosbarthu ers nifer o flynyddoedd bellach yw Robin Jones. Mae e wedi gofyn am gael ei ryddhau o'r cyfrifoldeb mawr hwnnw, ac o'r rhifyn presennol ymlaen, bydd ein Trysorydd, Ceri Morgan, yn gweithredu fel Prif Ddosbarthwr *Y Dinesydd*. Rydym yn ddiolchgar iddo am ymgymryd â'r gwaith allweddol hwn. Rydym hefyd yn ddiolchgar dros ben i Robin Jones am ei holl lafur dros y blynyddoedd. Nid yn unig y bu'n llafurio fel Prif Ddosbarthwr yn ystod y blynyddoedd diwethaf hyn, ond bu'n aelod gweithgar o bwyllgor *Y Dinesydd* ers tuag ugain mlynedd i gyd, gan gynnwys cyfnod fel Cadeirydd. Diolch i Cen Williams, cartwnydd dawnus *Y Dinesydd*, am lunio'r cartwn isod i nodi ymddeoliad Robin Jones fel Prif Ddosbarthwr.



# Ironman y Swistir

Dechreuodd ras yr Ironman yn 1978 yn Hawaii pan drefnodd dyn o'r enw John Collins ras i weld pwy oedd y mwyaf heini ym myd nofio, beicio a rhedeg. Dim ond 15 cystadleuydd ddechreuodd y ras gan nofio 2.4 milltir, beicio 112 milltir a rhedeg marathon 26.2 milltir. Clywais am y gystadleuaeth hon pan oeddwn yn blentyn. Bum mlynedd ar hugain yn ddiweddarach, ar 27 Gorffennaf 2003, roeddwn yn sefyll ar lan Llyn Zurich ynghyd â 1400 o gystadleuwyr o 39 gwlad ar fin cystadlu yn Ironman y Swistir.

7 o'r gloch y bore - dechrau gyda nofio. Mae nofio yng nghanol cymaint o gystadleuwyr yn brofiad unigryw - bron fel gornest paffio! Allan o'r dwr mewn 1 awr 18 munud, ac ymlaen â'r cit beicio. Tri lap 37 milltir o'm blaen. Oes 'na fynyddoedd yn y Swistir?

Ar ôl beicio am 7 awr 22 munud a dringo chwe mynydd lle roedd angen rhaffau i gyrraedd y copa, cyrhaeddais ran olaf y ras - dim ond marathon!! Wrth ddechrau rhedeg dechreuodd hi lawio. Hyfryd. Cyfle i oeri'r corff. Yn anffodus, nid glaw mân ond monswn a barhaodd am weddill y diwrnod. Os nad oedd y pellter yn mynd i goncro'r corff, efallai byddai'r tywydd yn gwneud hynny. Tair lap o ddinas Zurich oedd taith y marathon gyda miloedd o drigolion y ddinas wedi dod i gefnogi'r cystadleuwyr.

Gyda'r glaw yn dal i ddisgyn ac wrth redeg ar lan y llyn gwelais yr arwydd 400m i fynd. Roedd emosiwn y foment yn anhygoel. Roedd hi ar fin troi 8.25 y nos!! Ac mi oeddwn yn dal yn fyw ... wel, bron â bod!! Ar ôl 13 awr 24 munud a 57 eiliad, troediais dros y llinell gan ddal baner Cymru uwch fy mhen. Aelod newydd o glwb yr Ironman!

Un o'r rhesymau am ymgymryd â menter yr Ironman oedd i godi arian i Ward B5, sef yr Uned Arennau, yn Ysbyty'r Brifysgol yng Nghaerdydd. Ym mis Ebrill bu'r ysbyty'n gyfrifol am drawsblannu un o arennau fy mam, Delun Callow, i'm brawd, Meuryn Hughes. Teimlaf fod hyn yn fodd priodol i ddiolch i'r ysbyty.

*[Os hoffech gyfrannu at Gronfa Ward B5 mae croeso i chi godi'r ffôn i Geran neu ddanfon siec i'r cyfeiriad hwn: Geran Hughes, 21 Heathbrook, Llanisien, Caerdydd CF14 5FA. Ffôn: 029 2019 8355.]*




Geran Hughes ar ddiwedd y râs.

## Beirdd a Llenorion o Fri Parhad o dudalen 4.

1953, a'r bryddest honno yn sôn fel yr oedd y llen yn disgyn ar y Gymraeg yn yr ardal honno ar y pryd - a dyna oedd y casgliad rhesymol yn 1953, wrth gwrs. (Mae *Y Llen* newydd ei hailgyhoeddi gan Wasg Gomer yn y gyfrol *Rhywbeth i'w ddweud*, sef cofiant Dyfnallt Morgan.)

### Trafod Cyfansoddiadau Meifod

Roedd y cynnyrch llenyddol yn ddifyr ac yn ddadleuol. Bydd cyfle i'w drafod dros fisoedd y gaeaf mewn dosbarth a drefnir gan Ganolfan Addysg Gydol Oes Prifysgol Caerdydd yn Ysgol Gyfun Martin Sant, Caerffili. Unwaith y mis y mae'r dosbarth yn cyfarfod, gan ddechrau nos Lun, 29 Medi am 7.00 o'r gloch. Daw nifer dda ynghyd o Gaerdydd a'r Cymoedd i ymuno yn y trafod brwd. Arweinir y trafodaethau gan Dr E. Wyn James o Ysgol y Gymraeg, Prifysgol Caerdydd, a gellir cael rhagor o fanylion trwy gysylltu ag ef ar 029-2062-8754. (Os ydych heb gar, mae'n bosibl y bydd modd trefnu i chi gyd-deithio â rhywun arall, gan fod sawl car o Gaerdydd yn mynd i'r dosbarth.)

### Ysgol Judo Gymraeg Caerdydd

Llongyfarchiadau i Steven Withers ar gyrraedd rhestr fer yr adran pobl ifanc yng nghynllun Gwobrau Menter [Menter a Busnes] yn ddiweddar. Mae'r cynllun hwn yn gwobrwyo siaradwyr Cymraeg sy'n llwyddo mewn busnes a busnesau llwyddiannus sy'n defnyddio a hyrwyddo'r Gymraeg.

Sefydlodd Steven ysgol dysgu Judo ddwyieithog yng Nghaerdydd dair blynedd yn ôl, er nad oedd ef ei hun yn medru'r iaith. Cyflogir dau hyfforddwr Cymraeg ac mae Steven ei hun nawr yn dysgu'r Gymraeg ers Ionawr eleni. Gobeithia ehangu'r Ysgol Judo i weddill de Cymru yn y pen draw.

Am fwy o wybodaeth am y Gwobrau Menter cysylltwch â Delyth Gruffudd - 01269 844468 / delyth@menterabusnes.co.uk / www.menterabusnes.com

### Italian Job Cymraeg

Erbyn i'r rhifyn hwn ymddangos bydd tîm pêl droed Cymru wedi chwarae yn erbyn yr Eidal. Penderfynodd Sefydliad Deillion Caerdydd (CIB) nodi'r achlysur drwy ail-greu *The Italian Job* a gyrru tri char o Gaerdydd i Milan.

Y nod, wrth gwrs, yw codi arian tuag at y CIB, gan wahodd noddwyr i gefnogi'r antur. Yn un o'r ceir bydd pedwar Cymro Cymraeg - Rhodri Griffith, Alun Gruffudd, Dafydd Rhun Henry ac Aled Watkins. A welsoch chi beth o'r cyhoeddusrwydd? Tybed a lwyddon nhw i gael sgwrs â seren y ffilm enwog, Michael Caine? Ar y ffordd byddant yn casglu pob math o 'drysorau' i'w gwerthu, ar ôl dychwelyd, mewn Cinio Arwerthiant yng Ngwesty'r Marriott, ar 28 Tachwedd, lle bydd John Charles a Gareth Edwards yn westeion. Bydd croeso i ddarllenwyr *Y Dinesydd* fynychu'r achlysur arbennig hwn.

Tan hynny mae'r apêl yn dal ar agor, a gellir cyfrannu, neu gael tocyn i fynd i'r Cinio Arwerthiant trwy gysylltu â Carys Henry, Sefydliad Deillion Caerdydd, Tŷ Shand, 20 Heol Casnewydd, Caerdydd CF24 OYB [ffôn 20 485 414].

Cafodd CIB ei sefydlu gan Francis Batty Shand (sy'n rhoi'r enw Shand House) ym 1865. Dyma'r brif Gymdeithas dros y Deillion yng Nghymru ac fe'i cydnabyddir fel y Gymdeithas fwyaf blaenllaw yn y D.U. Mae dros 7000 o ddeillion neu bobl sydd yn dioddef o nam gweld wedi'u cofrestru yn ardal Caerdydd, ac sy'n derbyn lles o'r gwasanaethau a ddarperir gan y Sefydliad.

Mae darparwyr CIB yn helpu busnesau drwy gyfrwng

# GWRES GWYN

Oes rhywun wedi gwasanaethu eich bwyler eleni?
Nac oes?

Cysylltwch â Gwyn Rhys Jones

Gosodwr Cofrestredig Rhif 190209

82 Pendwyallt, Yr Eglwys Newydd

**07974 80 30 89**

gosod a symud rheiddiaduron, adnewyddu bwyleri ac ystafelloedd ymolchi, diweddaru systemau ac unedau rheoli, darganfod a datrys namau mewn systemau, tystysgrifau diogelwch

# TRYDANWR

gyda dros 20 mlynedd o brofiad

Ailweirio, gosod systemau larwm a chawodydd

*PRISIAU RHESYMOL*

Ffoniwch

**Caerwyn Davies**

ar **029 20868208**

neu **07967 558664**

# CYSTADLEUAETH

*Bwydlen Ddwyieithog y Mis*

Ydych chi wedi gwirioni ar fwydlen ddwyieithog?

Ydych chi eisiau ennill magnwm o siampên Tanners?

**Os mai 'YDW' yw'r ateb, enwebwch eich hoff fwydlen heddiw!**

Anfonwch eich enw, rhif ffôn a chyfeiriad y bwyty, caffi, gwesty neu dafarn at:

**bwydlen@bwrdd-yr-iaith.org.uk**

neu at: Fwrdd yr Iaith Gymraeg, Rhadbost, CF3248, Caerdydd CF10 1GZ


Noddir gan Llywodraeth Cynulliad Cymru
Sponsored by Welsh Assembly Government

BWRDD YR IAITH GYMRAEG
WELSH LANGUAGE BOARD

Angen cael eich bwydlen wedi ei chyfieithu am DDIM?
Llinell Gyswllt â'r Gymraeg: 0845 607 6070 cyswllt@bwrdd-yr-iaith.org.uk

Mapiau Mynediad i Gefn Gwlad yng Nghymru

# Dewch i fynegi barn!



## Bro Morgannwg, Caerdydd, Casnewydd a Sir Fynwy

Rydym yn eich gwahodd i fynegi eich barn ar fapiau drafft o 'gefn gwlad agored' a thir comin cofrestredig yn eich ardal. Mae'r rhain yn bwysig gan eu bod yn dangos tir lle bydd hawliau mynediad newydd i'r cyhoedd yn y dyfodol.

Bydd digwyddiad ymgynghori teithiol yn dangos y mapiau drafft ac yn egluro'r hawliau a'r cyfrifoldebau o dan y Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000, yn ymweld â:

| DYDDIAD | LLEOLIAD | MAN CYFARFOD | AMSER |
|---|---|---|---|
| Dydd Mawrth 9 Medi | Casnewydd | Yr Orenfa, Tŷ Tredegar | 11am–6pm |
| Dydd Iau 2 Hydref | Sain Ffagan | Amgueddfa Werin Cymru | 11am–6pm |
| Dydd Iau 9 Hydref | Rhaglan | Ysgol yr Hen Gapel | 11am–6pm |
| Dydd Iau 23 Hydref | Y Bont-faen | Neuadd y Dref | 11am–6pm |
| Dydd Iau 30 Hydref | Caldicot | Tafarn Ye Olde Tippling Philosopher | 11am–6pm |

Dewch i gwrdd â staff y Cyngor Cefn Gwlad, i weld y mapiau a mynegi eich barn.

Am fanylion pellach, ffoniwch ein swyddfa ardal yng Nghaerdydd ar 029 2077 2400. Gallwch hefyd gysylltu â ni drwy ffonio'r rhif ffôn ymholiadau ar 0845 130 6229 neu drwy yrru e-bost ar openaccess_s@ccw.gov.uk

Mae manylion hefyd ar ein gwefan **www.ccw.gov.uk**. Gallwch hefyd weld y mapiau yn swyddfa leol y Cyngor Cefn Gwlad ac mewn rhai o swyddfeydd yr awdurdodau lleol, ochr yn ochr â'r cofrestrau tir comin. Cysylltwch â ni am fanylion.

Y dyddiad cau ar gyfer sylwadau ar y mapiau drafft yw Dydd Mawrth, 9 Rhagfyr 2003.